

**PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH**

**Dyddiad:** Dydd Iau 21 Mehefin 2001  
**Amser:** 2.00 to 5.00 pm  
**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 3, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**PARCIAU CENEDLAETHOL CYMRU****RHAGLEN GORFFORAETHOL****2002 - 2005****1. Cefndir**

1.1 Crëwyd Awdurdodau tri Pharc Cenedlaethol Cymru yn awdurdodau lleol annibynnol â diben arbennig ym mis Ebrill 1996 o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995, gyda dibenion diwygiedig ac ehangach. Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n pennu'r nawdd sylfaenol drwy gyfrwng Grant y Parciau Cenedlaethol a delir mewn dwy ffurf - Grant Refeniw a delir i'r Awdurdodau ar raddfa o 75% o'r gwariant a gymeradwywyd gyda'r 25% sydd dros ben yn dod o drethu'r Awdurdodau Unedol cyfansoddol, a Grant Cyfalaf sy'n 100% o gost y rhaglen gyfalaf a gymeradwywyd. Yn amlwg, mae'r Parciau'n denu 50% o nawdd ychwanegol drwy gymhorthdal grant o gronfeydd Ewropeaidd a chronfeydd y Loteri, asiantaethau a phartneriaethau lleol, yn ogystal â thrwy ffioedd a chostau a godir.

1.2 Cyfanswm setliad Grant Refeniw y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2001-02 oedd £7,254,000, sy'n gynydd o 11.02% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Hefyd fe awgrymwyd ffigurau cynllunio o £8,034,000 ar gyfer 2002-03 ac £9,034,000 ar gyfer 2003-04. Croesewir dyraniad y gwariant tair blynedd yn fawr gan ei fod yn galluogi Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol i baratoi rhaglen waith hir dymor am

y tro cyntaf.

1.3 Nid yw'r Grant Cyfalaf wedi newid ers 1996 a phery'n £660,000. Bellach mae hwn yn ffigwr afrealistig ar gyfer gwariant cyfalaf ac mae'n rhaid i'r Parciau Cenedlaethol ariannu llawer o'u gwaith cyfalaf o'r gyllideb Refeniw. Cred Awdurdodau'r Parciau y byddai'n well cyfuno'r grant cyfalaf a'r grant refeniw gan ddyrannu un grant cyflawn i Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.

1.4 Mae'r Cynulliad hefyd yn ariannu Cronfa Datblygu'r Amgylchedd a weinyddir gan Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol. Mae £750,000 ar gael yn flynyddol i noddi projectau amgylcheddol, dyfeisgar, a chynladwy sy'n annog y cymunedau lleol i fod yn rhan o waith y Parciau Cenedlaethol. Gobeithir y bydd y grant hwn yn cael ei ymestyn hyd at 2003-04.

## 2. Ein Rhaglen ar gyfer y Tair Blynedd Nesaf

### Blaenoriaethau

2.1 Mae argyfwng Clwy'r Traed a'r Genau wedi gwneud i ni sylwi pa mor fregus yw rhai cymunedau gwledig yn enwedig rhai sy'n ymwneud ag amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae rhaglen *adfywio gwledig gynladwy* yn hanfodol ac mae ein cynigion ni yn bwriadu cefnogi hyn drwy fentrau newydd y gallwn eu rhannu. Er mwyn cyflawni ein dibenion statudol ac i sicrhau ein bod yn symud tuag at ddyfodol cynladwy i'r Parciau Cenedlaethol a'u cymunedau, byddwn y rhoi blaenoriaeth dros y tair blynedd nesaf i wariant newydd ar y canlynol:

- **Gwella Mynediad** - gweithredu'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn effeithiol.
- **Hyrwyddo Bioamrywiaeth** - gweithredu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a rheoli amgylchedd y tir ac amgylchedd morwrol mewn modd cynladwy.
- **Adfywio Trefi ac Adeiladau Hanesyddol** - ymestyn cynlluniau tref hanesyddol a rhoi cymhorthdal grant i adeiladau rhestredig a hanesyddol i warchod cymeriad arbennig y Parciau.
- **Hyrwyddo Dealltwriaeth** - annog rhagor o bobl o bob oed i gyfrannu drwy gynnig gwybodaeth a gwasanaethau addysgol gwell, datblygu gwefannau a chyfathrebu'n ehangach.

- **Datblygu TG** - cyflawni amcanion y Llywodraeth o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus yn electronig erbyn 2005.

2.2 Bydd y blaenoriaethau hyn, ynghyd â'r ymrwymadau blynyddol na ellir mo'u hosgoi megis cyflogau a chwyddiant, yn cael eu hariannu gan y ffigurau cynllunio ar gyfer 2002-03 a 2003-04. Mae'r amcanion sy'n sail iddynt yn debyg i amcanion sefydliadau statudol eraill, yn dibynnu ar gydweithio ag asiantaethau eraill yn y dyfodol a byddant i gyd yn ychwanegu at flaenoriaethau'r Cynulliad Cenedlaethol yn y pen draw fel y'u crynhoir isod:

<b>Blaenoriaethau</b>	<b>Gwella Mynediad</b>	<b>Hyrwyddo Bioamrywiaeth</b>	<b>Adfywio Trefi ac Adeiladau</b>	<b>Hyrwyddo Dealltwriaeth</b>	<b>Datblygu TG</b>
<b>Amcanion Cyffredin</b>	CCGC AU BCC	CCGC AyA YCC	CADW BCC AU	CCGC BCC	AU
<b>Cydweithio</b>	CCGC AU	CCGC AyA YCC	CADW AU ADC	CCGC BCC	AU
<b>Blaenoriaethau Cymru Well</b>					
- dysgu				ü	ü

- economi	ü	ü	ü		
- lles	ü			ü	
- ansawdd bywyd	ü	ü	ü	ü	
- llywodraeth symlach					ü

CCGC - Cyngor Cefn Gwlad Cymru AU - Awdurdodau Unedol

AyA - Asiantaeth yr Amgylchedd YCC - Y Comisiwn Coedwigaeth

BCC - Bwrdd Croeso Cymru ADC - Awdurdod Datblygu Cymru

### Meysydd Allweddol Eraill

2.3 Mae Awdurdodau'r Parciau hefyd wedi dynodi meysydd gwaith allweddol eraill i ateb anghenion y gwasanaethau a'r galw cyhoeddus cynyddol sy'n wynebu'r gwasanaethau hynny. Bydd angen nawdd llawer mwy ar y rhain na'r hyn sydd yn y ffigurau cynllunio. Maent wedi'u nodi'n fanwl yn y dogfennau bidio ond gellir crynhoi'r prif feysydd fel a ganlyn:

Gweithgaredd	Diben	Canlyniad	Cydweithio

<p><b>Mentrau Trafnidiaeth</b></p> <p><b>Cynladwy</b></p>	<p>Rhaglenni Partneriaeth i wella trafndiaeth gyhoeddus a rheoli traffig</p>	<p>Creu amgylchedd gwell i gerddwyr, lleihau CO<sub>2</sub> a bod o fudd i gymunedau lleol</p>	<p>AU</p> <p>BCC</p> <p>CCGC</p> <p>ADC</p>
<p><b>Rheoli Datblygu</b></p>	<p>Yn dilyn Adolygiadau Gwerth Gorau, cryfhau rheolaeth cynllunio a gorfodi.</p> <p>Bwrw ymlaen â'r Cynlluniau Datblygu Unedol</p>	<p>Darparu gwasanaethau rheoli datblygu yn gynt ac yn fwy effeithiol, sef cyfrifoldeb statudol Awdurdodau'r Parciau.</p>	<p>AU</p>
<p><b>Cefnogi Amaeth</b></p>	<p>Ehangu arallgyfeirio amaeth-amgylcheddol a mentrau marchnata, drwy roi cyngor, arweiniad a chymorth. Cefnogi Cyswllt Amaeth.</p>	<p>Mabwysiadu amgylchedd naturiol ac economi gwledig gynladwy, ffyniannus a iach.</p>	<p>ADC</p> <p>CCGC</p> <p>AyA</p> <p>YCC</p>
<p><b>Twristiaeth Gynladwy</b></p>	<p>Datblygu mentrau ar y cyd â'r diwydiant twristiaeth.</p>	<p>Hyrwyddo twristiaeth werdd a dealltwriaeth ymwelwyr ohono; cyfrannu tuag at adfywio'r economi gwledig.</p>	<p>BCC</p> <p>CCGC</p> <p>YCC</p>

<b>Monitro Newid</b>	Datblygu data sylfaenol a systemau monitro ar y cyd ag asiantaethau eraill.	Cynhyrchu adroddiadau ar "Gyflwr y Parciau" sy'n monitro newid ac yn mesur perfformiad.  Dynodi dangosyddion allweddol Cyflwr y Parciau.	YCC  CCGC  AyA
<b>Uwchraddio a Gwella Eiddo'r Parciau Cenedlaethol</b>	Uwchraddio'r canolfannau croeso, yr atyniadau a'r swyddfeydd.	Hybu'r dreftadaeth ddiwylliannol a dealltwriaeth o'r parciau.	CADW  BCC  ADC

2.4 O ganlyniad mae Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol yn ceisio am nawdd ychwanegol ar gyfer y tair blynedd nesaf; cyfanswm o £2,112,000 yn 2002-03, £2,986,000 yn 2003-04, a £3,610,000 yn 2004-05. £1062,000 yn 2002-03 a £613,000 yn 2003-04 yw'r bidiau sy'n uwch na'r ffigurau cynllunio a ddynodwyd.

2.5 Cyflwynwyd ceisiadau achos arbennig gan Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog a Pharc Cenedlaethol Eryri am nawdd uwch na Grant y Parc Cenedlaethol, sef:

I brynu adeilad swyddfa newydd yn Aberhonddu yn lle'r swyddfa amhriodol sydd ganddo ar hyn o bryd. Cost - £1.2 miliwn.

I roi cefnogaeth ariannol i Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri i drefnu a chynnal cynhadledd fawreddog ryngwladol Europarc yn 2002. Cost - £50,000.